

---

Datblygu sefydliadol TU872

---

*Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill*  
*O fis Mai i fis Hydref*

### *Gwybodaeth am y rhaglen*

Mae'r rhaglen Rheoli Datblygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n rheoli prosiectau ar y rheng flaen a'r sawl sydd â chyfrifoldeb am fentrau datblygu mewn amrywiaeth eang o fentrau cyhoeddus a phreifat cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n cynnig adnoddau cysyniadol ar gyfer dehongli amgylcheddau sy'n newid yn gyflym ac yn addysgu sgiliau ar gyfer rheoli newid mewn ffordd strategol. Mae'r rhaglen yn cyfuno tri modiwl craidd wedi'u dylunio'n arbennig ar reoli datblygu gyda modiwlau eraill Y Brifysgol Agored ym maes rheolaeth a'r amgylchedd.

Argymhellir yn gryf y dylai myfyrwyr gael gradd gyntaf; fodd bynnag, gellir derbyn y sawl nad ydynt yn raddedig ac argymhellir y dylent ddechrau'r rhaglen gyda *Datblygu: cyd-destun ac ymarfer* (TU871/T877), sy'n rhoi 30 o'r 60 o bwyntiau sy'n ofynnol ar gyfer y dystysgrif ôl-raddedig a 30 o'r 120 o bwyntiau sy'n ofynnol ar gyfer y diploma ôl-raddedig. Mae'n rhaid i bob myfyriwr gwblhau *Galluoedd ar gyfer rheoli datblygu* (TU870/T878) a *Datblygu sefydliadol* (TU872) yn llwyddiannus fel rhan o'r diploma ôl-raddedig. Pan fyddant wedi cael y diploma ôl-raddedig, gallant gofrestru ar gyfer yr MSc mewn Rheoli Datblygu ac astudio'r modiwl craidd *Y prosiect rheoli datblygu* (TU874).

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- cefndir academiaidd mewn astudiaethau datblygu a/neu reoli datblygu, a/neu brofiad mewn gwaith datblygu neu reolaeth
- gwybodaeth a dealltwriaeth o arwyddocâd cyberthnasau rhyngsefydliadol wrth ddatblygu a natur negodedig datblygiad sefydliadol
- y gallu i roi cymorth academiaidd i fyfyrwyr drwy farcio ac ysgrifennu sylwadau manwl ar eu haseiniadau yn electronig, a thrwy fod ar gael dros y ffôn neu drwy e-bost i ateb ymholiadau ar gynnwys modiwlau
- y gallu i gynnal tiwtorialau, wyneb yn wyneb neu'n electronig, sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr rannu profiadau, trafod a chymhwyso cysyniadau o fodiwlau i'w sefyllfaoedd eu hunain, a chael arweiniad ychwanegol ar y rhannau o'r modiwl sy'n peri trafferth iddynt
- y gallu i weithio gyda myfyrwyr gan ddefnyddio fforymau grŵp tiwtor ar-lein, sy'n ddimensiwn arbennig o bwysig yn y modiwl hwn
- y gallu i arwain myfyrwyr drwy weithgaredd negodi a threfnu ar-lein, sy'n rhedeg am dair wythnos tua diwedd Rhan 3 o'r modiwl
- y gallu i gyfathrebu â'r swyddfeydd Rheoli Datblygu yn Nottingham a defnyddio fforymau ar-lein i diwtoriaid.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig mewn maes pwnc perthnasol.
- profiad o addysgu neu hyfforddi rhyngpersonol.

### **Modiwlau craidd**

*Modiwlau 30 o bwyntiau*

*Galluoedd ar gyfer rheoli datblygu TU870/T878*

*Datblygu sefydliadol TU872*

Y prosiect rheoli datblygu TU874

### **Modiwlau Dewisol**

#### *Modiwlau 30 o bwytiau*

*Creadigrwydd, arloesedd a newid B822*

*Datblygu: cyd-destun ac ymarfer TU871/T877*

*Ecoleg, cyfiawnder a dinasyddiaeth D830*

*Gwneud penderfyniadau amgylcheddol: dull systemau T863*

*Moeseg amgylcheddol T861*

*Prisio a pholisïau amgylcheddol D831*

*Ailfeddwl polisïau cymdeithasol D860*

*Strategaeth B820*

*Rhyfel, ymyrryd a datblygu TU875*

#### *Modiwlau 60 o bwytiau*

*Sylfeini rheolaeth uwch B800 (wedi dod i ben bellach) neu Hanfodion rheolaeth uwch B713*

#### *Disgrifiad o'r modiwl*

Mae datblygu sefydliadol yn faes allweddol i'r sawl sy'n gweithio ym maes rheoli datblygu. Mae'n ymwneud â hyrwyddo newid mewn sefydliadau, fel rheolau a normau, gwerthoedd ac ystyron, a 'chwaraewyr mawr' sy'n dod yn sefydliadau (fel Banc y Byd). Yn rhan gyntaf y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn edrych ar faterion gwleidyddol a moesegol, gan ystyried dulliau gwahanol o ddatblygu sefydliadol ac yna'n canolbwyntio ar ddatblygu sefydliadol yng nghyd-destunau lleihau tlodi a thwf. Rheoli cydberthnasau rhyngsefydliadol yw prif bwnc Rhan 2, sy'n canolbwyntio eto'n fyr ar leihau tlodi ac ar dwf ac yna ar ymyrraeth ddyngarol mewn argyfyngau cymhleth. Yn Rhan 2, bydd myfyrwyr yn dysgu am adnoddau, technegau a sgiliau, yn cynnwys mapio, y gellir eu cymhwyso mewn sefyllfaoedd amlsefydliadol. Mae Rhan 3 yn canolbwyntio ar brosesau modelu datblygu sefydliadol a'r ffordd y gellir negodi a threfnu datblygu sefydliadol. Prif faes thematig Rhan 3 yw llywodraethu.

#### *Gwybodaeth ychwanegol*

- Mae 3eddd fersiwn y modiwl hwn wedi'i threfnu mewn rhaglen astudio fesul wythnos ac mae popeth ar-lein. Bydd angen i chi fod yn gyfarwydd â'r wefan a'r fformatau gwahanol y gall myfyrwyr gael gafael ar y deunyddiau ynddynt. Bydd hefyd angen i chi ymgysylltu â'r **OU Computing Guide**, yn enwedig yr adran 'Alternative and accessible formats' o dan 'Using your module website'.
- Fel rhan o'r broses hon, ac am fod llawer o'n myfyrwyr yn teithio fel rhan o'u swyddi, bydd angen i chi annog myfyrwyr i feddwl ymlaen llaw a lawrlwytho eu deunyddiau astudio ymlaen llaw os na fydd ganddynt fynediad i'r rhyngwyd.
- Mae'r modiwl hwn yn golygu y bydd angen i chi ymgysylltu'n rhagweithiol â'ch grŵp myfyrwyr mewn fforymau grŵp tiwtora. Mae hyn yn rhan bwysig o'r broses o feithrin cydberthnasau o fewn y grŵp a gyda chi fel tiwtor, y bydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd negodi a threfnu ar-lein.
- Mae'r gweithgaredd negodi a threfnu yn weithgaredd ar-lein mewn grwpiau tiwtor a dyma brif ffocws Wythnosau 18-20. Fel tiwtor, byddwch yn arwain eich myfyrwyr drwy'r gweithgaredd hwn. Rydym yn disgwyl y bydd pob myfyriwr yn cymryd rhan – ac mae TMA03 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ysgrifennu eu myfyrdodau. (Mae llwybr amgen ar gael, ond rhaid i fyfyrwyr gael caniatâd gan y Tiwtor Staff.)
- Mae'r modiwl yn cynnwys Asesiad Diwedd Modiwl ar ffurf adroddiad 3000 o eiriau, i'w ysgrifennu yn ystod wythnosau 22-24. Caiff yr asesiad diwedd modiwl ei farcio ddwywaith, gyda'r tiwtor yn marcio gwaith ei fyfyrwyr ei hun i ddechrau.

*Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7